**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

26 Mehefin 2023

Annwyl Vaughan,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 21 Mehefin. Roeddem wedi bwriadu gofyn cwestiwn ichi ynghylch llwybr hydrogen Partneriaeth Porth y Gorllewin, ond nid oeddem yn gallu gwneud hynny oherwydd cyfyngiadau amser. A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw waith yr ydych yn ei wneud gyda Llywodraeth y DU a Phartneriaeth Porth y Gorllewin mewn perthynas â'r cynlluniau a amlinellwyd yn eu llwybr cyflawni a'r cyfleoedd hydrogen?

Bu'r Aelodau hefyd yn trafod eich llythyr ynghylch Fforwm y Gweinidog Masnach ar 23 Mai. Rydym yn gwerthfawrogi'r diweddariad ac yn croesawu eich cynnig i rannu gwybodaeth am y strwythurau adrannol newydd o fewn Llywodraeth y DU. Hoffai'r Pwyllgor hefyd ofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar weithrediad Fframwaith Windsor a'r Model Gweithredu Targed Pwynt Rheoli Ffiniau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg